



Llangollen
Business Improvement District
Ardal Datblygu Busnes

Dogfen Crynodeb o Gynllun Busnes
2019-2024 | www.llangollenbid.co.uk

Dros y misoedd diwethaf, mae busnesau yn Llangollen wedi bod yn dweud wrth y Tîm AGB sut yr hoffent weld y dref yn cael ei gwella. Mae cyfarfodydd busnes agored, arolygon, trafodaethau unigol a chyflwyniadau wedi ffurfio proses ymgynghori ynglŷn â blaenoriaethau'r AGB. Mae'r ddogfen hon yn gyfle i ni roi amlinelliad cychwynnol am farn busnesau Llangollen am beth ddylai AGB gyflawni. Fodd bynnag, bydd ymgynghori dros yr AGB yn parhau hyd ddiwedd 2019 felly mae'n bwysig eich bod yn darllen hwn ac yn rhoi adborth i ni er mwyn helpu i siapio'r cynllun busnes terfynol.

Dim ond os bydd busnesau Llangollen yn pleidleisio 'IE' i gyflwyno AGB yn Llangollen y bydd y prosiectau a nodir yn y cynllun hwn yn mynd rhagddynt. Bydd y bleidlais hon yn cael ei chynnal yn annibynnol o drefnwyr yr AGB. Byddwch yn derbyn copi llawn o gynllun busnes terfynol yr AGB ym mis Ionawr 2020, a phapurau pleidleisio ym mis Chwefror 2020.

Er mwyn cyflwyno AGB, rhaid i'r bleidlais fodloni dwy amod:

1. Rhaid i dros 50% o'r busnesau sy'n pleidleisio, pleidleisio o blaid yr AGB.
2. O'r busnesau sy'n pleidleisio, rhaid i'r rheiny sy'n pleidleisio 'ie' gynrychioli cyfanswm gwerth ardrethol mwy na'r rhai sy'n pleidleisio'n erbyn.

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r Tasglu AGB, grŵp cynrychioladol o fusnesau sy'n gwirfoddoli i weithio tuag at baratoi'r Cynllun Busnes, ac os gallwch roi'ch amser i'r prosiect, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.



Cystadlu ar gyfer Y Dyfodol

Rydym yn gwybod bod canol trefi yn wynebu pwysau masnachol gwaeth nag erioed, ac mae Llangollen yn wynebu'r un heriau. O werthu ar-lein i barciau manwerthu y tu allan i'r dref a pharciau busnes, mae datblygiadau a buddsoddiadau mawr yn cystadlu am lefydd ar stepen ein drws, mae galw ar hygyrchedd a gwasgfa ar wario yn newid y ffordd bydd angen i ganol trefi weithredu a hyrwyddo eu hunain yn sylweddol.

Corff busnes fydd AGB Llangollen a fydd yn sicrhau bod y dref yn ymateb i'r heriau hyn. Bydd yn sicrhau bod Llangollen yn cael ei chydabod a'i dathlu fel cyrchfan atyniadol, sy'n sefyll allan yn lleol ac yn genedlaethol. Yr AGB yw'r cyfle i siapia agenda Llangollen a chydweithredu ar y potensial rydych chi'n ei ddweud sydd angen ei gyflawni yn y dref.

Cyllid

Caiff AGB eu cyllido gan y busnesau o fewn ffin yr AGB. Os bydd busnesau yn pleidleisio 'ie' dros AGB Llangollen, bydd yr ardoll yn codi dros £85,000 y flwyddyn, am bum mlynedd, i ddarparu gwelliannau a fydd o fantais uniongyrchol i chi.

Os bydd y bleidlais AGB yn llwyddiannus, bydd yr holl fusnesau cymwys yn talu ardoll blyneddol yn unol â'r strwythur bandio isod, yn seiliedig ar werth ardrethol eich busnes. Bydd y busnesau lleiaf, gyda gwerth ardrethol o lai na £2,500, yn cael eu heithrio rhag talu.

Mae'r tabl isod yn rhoi enghreifftiau o faint fydd ardoll yr AGB. Bydd gofyn i'r rhan fwyaf o fusnesau dalu llai na 70 ceiniog y dydd neu £250 y flwyddyn.

Gwerth Ardrethol	Uchafswm Lefi Blyneddol	Uchafswm Cost Ddyddiol Cyfwerth
Llai na £2,500	Eithriedig	Amherthnasol
£2,500 – £10,000	£250	£0.68
£10,001 – £25,000	£365	£1
£25,001 – £50,000	£750	£2.05
£50,001 – £100,000	£1,500	£4.11
£100,001 – £200,000	£3,000	£8.22
£200,001 – £300,000	£4,000	£11.94

Cwmni'r AGB

Bydd yr AGB yn cael ei rhedeg gan gwmni annibynnol nid-er-elw, fydd yn cael ei arwain gan fwrdd a etholir gan y busnesau sy'n talu'r ardoll o fewn ardal yr AGB a byddant yn atebol i bawb sy'n talu'r ardoll. Bydd unrhyw fusnesau sy'n talu'r ardoll yn cael sefyll i'w hethol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Gwirfoddol fydd unrhyw rôl ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr, yn hytrach na thaladwy.

Bydd yr holl gyllid ar gyfer yr AGB yn cael ei glustnodi, a dim ond ar brosiectau a gwasanaethau ychwanegol yr ydych wedi eu cytuno arnynt yn y Cynllun Busnes ffurfiol y gellir ei wario. Fel cwmni preifat annibynnol, gall yr AGB geisio cyfraniadau ariannol ychwanegol a chyllid cyfatebol i brosiectau er mwyn sicrhau bod busnesau lleol yn cael gwerth hyd yn oed gwell am arian a'n bod yn gallu buddsoddi mewn cyfleoedd cyffrous ar gyfer canol tref Llangollen.

Bydd yr AGB yn para am bum mlynedd, a dros y cyfnod hwnnw bydd yn rhaid iddo ddangos sut mae'ch busnes chi yn elwa ohono. Dyma'ch cyfle i fuddsoddi dros £400,000 yn Llangollen a sicrhau dyfodol y dref a gwneud y newidiadau mae busnesau am eu gweld. Drwy AGB, gallwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r dref a manteisio ar y cyfle i roi Llangollen yn ôl ar y map gan sicrhau ei bod yn gyrchfan sy'n cael ei marchnata'n dda ac yn dref wych i ymweld â hi, i weithio ynddi ac i fyw ynddi.

Cymerwch amser I ddarllen y ddogfen hon a dywedwch eich barn am y cynllun busnes terfynol. O'r ymgynghoriad busnes hyd yma, mae'r prosiectau canlynol wedi eu blaenoriaethu.

1. Marchnata a Hyrwyddo

Yn eich barn chi:

“mae angen mwy o ymwelwyr i'r dref, yn enwedig y tu allan i dymor prysuraf yr haf , ac mae angen i ni adfywio ein proffil a hyrwyddo'r dref, gan sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae'n ei gynnig. Mae angen ffyrdd newydd a chreadigol o hyrwyddo Llangollen arnom, a hynny yn lleol ac yn rhanbarthol fel dewis o dref i ymweld â hi, i fyw ynddi, ac i wneud busnes. ”

Gallai'r AGB ddarparu:

- Gallai'r AGB greu brand Canol Tref Llangollen adnabyddus, i'w ddefnyddio yn holl brosiectau a gwasanaethau'r AGB. Bydd y brandio hwn yn cynnwys y cynnig o ran diwylliant, treftadaeth, hamdden, y sector annibynnol, swyddfeydd a masnach.
- Cynllunio ymgyrchoedd marchnata strategol y gellir eu darparu'n gyson dros bum mlynedd. Gallai'r AGB hefyd greu gwefan gynhwysfawr gyfredol a sianeli cyfryngau cymdeithasol fyddai'n hyrwyddo eich busnes a thref Llangollen.
- Byddai'r AGB yn cefnogi'r rhaglen gyfredol o ddigwyddiadau ac yn gweithio'n benodol i hyrwyddo buddsoddiad a phroffil busnesau.
- System dalebau neu docyn anrheg er mwyn hyrwyddo cynigion a rhoi gwerth ychwanegol i gwsmeriaid neu staff lleol gan gadw'r gwariant yng Nghanol Tref Llangollen.

2. Mynediad

Yn eich barn chi:

“Mae diffyg llefydd parcio a phroblemau traffig yn rhoi profiad negyddol i bobl ac yn eu rhwystro rhag dod i'r dref. Rhaid cael arwyddion mwy eglur hefyd fel y gall ymwelwyr brofi'r cyfan sydd gan Llangollen i'w gynnig.”

Gallai'r AGB ddarparu:

- Gweithio gyda'r Awdurdod Lleol a Llangollen 2020 i archwilio ffyrdd o wella rheolaeth traffig, parcio ceir a mynediad i gerddwyr
- Gweithio gyda darparwyr parcio ceir i gynnig ysgogiad a bargeinion ar gyfer cyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn fasnachu ac ar adegau penodol o'r wythnos
- Gwellu arwyddion ar strydoedd gan gysylltu'r dref gyfan a'i gwneud yn haws i bobl ddarganfod y cyfan sydd gan Llangollen i'w gynnig
- Gwell arwyddion a gwybodaeth mewn meysydd parcio ac ar lwybrau i mewn i'r dref

3. Atyniadol, Diogel a Chroesawgar

Yn eich barn chi:

“mae angen help ar fusnesau i fynd i'r afael â'r problemau, gan gynnwys costau cynyddol, y maent yn eu hwynebu o ran troseddu ac ymddygiad gwrth gymdeithasol, yn enwedig yn nhymor prysur yr haf, er mwyn sicrhau bod ymwelwyr â'r dref yn ei gweld fel lle croesawgar, diogel, a glân. Roeddech hefyd yn teimlo bod rhannau o'r dref yn edrych yn flinedig ac yn credu bod siopau gweigion yn niweidio ymddangosiad y dref. ”

Gallai'r AGB ddarparu:

- Hyrwyddo profiad diogel braf yn Llangollen drwy'r dydd a'r nos, gan weithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau gan gynnwys Cyngor Sir Didnbych a Chyngor Tref Llangollen.
- Lleihau'r achosion o ladrata ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yng nghanol y dref drwy ddefnyddio cynlluniau gwahardd, rhannu gwybodaeth ddiogelwch ar gyfer pob busnes yn yr AGB sydd am fod yn rhan o'r cynllun. Byddai hyn mewn partneriaeth â'r Heddlu a'r Cyngor.
- Gweithio gyda landlordiaid i wella eiddo gwag – e.e arddangosfeydd mewn ffenestri

4. Cymorth Busnes

Yn eich barn chi:

“Mae eisiau tref sydd yn cael ei rheoli a'i hyrwyddo'n dda, gyda chymorth ac arbedion o ran costau ar gael i fusnesau presennol yn ogystal ag atynnu busnesau newydd. ”

Gallai'r AGB ddarparu:

- Arbedion i'ch arian busnes drwy drafod gyda darparwyr ailgylchu, gwastraff masnachol, yswiriant a chostau bancio i yrru costau'r contractau hyn i lawr, gan sicrhau na welch ostyngiad yn safon y gwasanaeth, fydd yn arbed arian ac amser i chi
- Grŵp lobio dylanwadol, yn gweithio ar ran busnesau canol y dref er mwyn sicrhau bod eich barn yn cael ei glywed a'i gynrychioli ar y lefel uchaf o flaen pob asiantaeth berthnasol
- Gwell cymysgedd o fusnesau i ganol y dref, gan weithio gyda Landlordiaid a'r Cyngor i ddarparu ysgogiadau
- Corff a fydd yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth a chysylltiadau allweddol er mwyn eich cysylltu gyda'r bobl neu'r sefydliadau cywir a all fod o gymorth i chi.
- Cyfleoedd i fusnesau'r AGB gael rhwydweithio ac arddangos eu busnesau

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw Ardaloedd Gwella Busnes?

Trefniant yw AGB lle mae busnesau yn dod ynghyd ac yn penderfynu pa welliannau y maent yn ei deimlo y gellid eu gwneud yng nghanol eu tref neu ddinas, a sut byddant yn gweithredu'r gwelliannau hyn a faint fydd yn ei gostio iddynt. Caiff Ardaloedd Gwella Busnes eu cyllido a'u rheoli gan y busnesau o fewn yr ardal dan sylw. Bydd AGB yn darparu prosiectau a gwasanaethau ychwanegol i'r rheiny sydd eisoes yn cael eu darparu gan gyrrff cyhoeddus. Mae mwy na 300 o Ardaloedd Gwella Busnes yn gweithredu dros y DU, gan gynnwys 12 yng Nghymru. Mae busnesau wedi gweld newidiadau sylweddol i'w trefi a'u dinasoedd o ganlyniad uniongyrchol i bleidleisio i gael AGB i'w hardal.

Beth mae 'prosiectau ychwanegol' yn ei olygu?

Sefydlir AGB er mwyn darparu prosiectau ychwanegol a fydd o fantais i fusnesau. Ni all ddyblygu nac atgynhyrchu gwasanaethau yr ydych eisoes yn talu amdanynt drwy eich cyfraddau busnes. Mae AGB yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn prosiectau a gwasanaethau a fydd o gymorth i fusnesau wella eu hamgylchedd masnachu, yn ychwanegol at yr hyn mae cyrrff cyhoeddus eisoes yn ei ddarparu.

Pam fod busnesau'n cefnogi AGB?

Mae'r gallu gan AGB i gynyddu nifer yr ymwelwyr ag ardal, gwella gwasanaethau a lleihau costau busnes. Gan y gallant redeg am hyd at bum mlynedd maent hefyd yn rhoi'r cyfle i fusnesau gynllunio. Mae AGB yn rhoi'r rheolaeth yn nwylo'r busnesau eu hunain.


A yw AGB yn deg?

Mae AGB yn caniatáu busnesau i reoli eu lle lleol a blaenoriaethu eu prosiectau eu hunain. Mae holl gyllid AGB yn cael ei godi a'i reoli gan berchnogion busnes sy'n pleidleisio ar gynllun busnes sy'n cynnwys syniadau busnes lleol wedi eu casglu drwy gyfnod ymgynghori.

Beth sy'n digwydd ar ddiwedd tymor AGB?

Mae mandad AGB am uchafswm o bum mlynedd: rhaid i AGB sydd am barhau y tu hwnt i hynny ail ddatgan ei fandad drwy ail bleidlais, yn seiliedig ar gynllun busnes newydd. Yn y DU mae 9 o bob 10 AGB sydd wedi mynd i ail bleidlais wedi bod yn llwyddiannus, sy'n brawf o'u llwyddiant.

AGB Arfaethedig



Y Camau Nesaf

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am y syniadau a'r awgrymiadau yn y ddogfen hon fel y gall fwydo i'r cynllun busnes terfynol erbyn **13 Rhagfyr 2019**. Er mwyn rhannu eich barn, neu i gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Kevin Brownell Rheolwr Prosiect yr AGB:



kevin@themosaicpartnership.co.uk



07496 718580

www.llangollenbid.co.uk